

EVANS, DANIEL SILVAN (1818 - 1903), geiriadurwr

Enw: Daniel Silvan Evans
Dyddiad geni: 1818
Dyddiad marw: 1903
Priod: Margaret Evans (née Walters)
Plentyn: J. H. Silvan Evans
Rhiant: Sarah Evans
Rhiant: Silvanus Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: geiriadurwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Richard Edmund Hughes

Ganwyd ym Mron Wilym Uchaf, Llanarth, Ceredigion, 11 Ionawr 1818, mab Silvanus a Sarah Evans. Bu yn ysgol Neuadd-lywd o 1838 hyd 1840, ac yno y dechreuodd bregethu gyda'r Annibynwyr. Yn Rhagfyr 1840 aeth i Goleg yr Annibynwyr yn Aberhonddu, ond byr fu ei dymor yno. Wedi hynny bu am bum mlynedd yn athro ysgol. Yn 1843 cyhoeddodd gasgliad o ganeuon ac ysgrifau, *Blodeu Ieuainc*; yn 1846 ymddangosodd *Telynegion*.

Priododd Margaret, merch Walter Walters, Hendre, Ceredigion. Ymunodd â'r Eglwys Sefydledig, ac yn 1845-6 aeth i Goleg Dewi Sant, Llanbedr-Pont-Steffan. Yno penodwyd ef yn ddarlithydd yn y Gymraeg yn 1847. Wedi gadael Llanbedr-Pont-Steffan yn 1848, ordeiniwyd ef yn ddiagon a phenodwyd ef yn guraad Llandegwning yn Llŷn; ordeiniwyd ef yn offeiriad yn 1849. Golygodd *Elfennau Gallofyddiaeth* yn 1850 ac *Elfennau Seryddiaeth* yn 1851. Yn 1847 cychwynnodd gyhoeddi *An English and Welsh Dictionary*; cwplawyd y gyfrol gyntaf yn 1852, a'r ail yn 1858. Cyhoeddodd argraffiad o *Y Bardd Cwsc* yn 1853, a thrydydd argraffiad o gyfieithiad **Edward Samuel** o *De Veritate* Grotius yn 1854, dan y teitl *Gwirionedd y Grefydd Gristionogol* Yr oedd yn olygydd **Y Brython** o 1858 hyd 1860.

Yn 1852 penodwyd ef yn guraad Llangian, yn Llŷn, lle y bu hyd 1862. Ysgrifennodd erthyglau i *Y Gwyddoniadur* hyd 1856, y flwyddyn y cyhoeddodd ei gyfrol fechan, *Llythraeth yr Iaith Gymraeg*. Yn 1862 penodwyd ef i fywoliaeth Llan-ym-Mawddwy, ac yno, rhwng 1866 ac 1869, y golygodd *Gwaith Walter Davies* ('**Gwallter Mechain**'), yn dair cyfrol. Yr oedd eisoes wedi golygu *Y Marchog Crwydrad: Hen Ffuglith Gymreig*, yn 1864, ac ailargraffiad o *Y Bardd Cwsc* yn 1865. Yn 1868 ysgrifennodd gyfieithiadau i lyfr **Skene**, *The Four Ancient Books of Wales*. Golygodd *Cambrian Bibliography* '**Gwilym Lleyl**' yn 1869, ac ymddangosodd tair cyfran o'i eiddo i atodiad ar y cyhoeddiad hwn yn *Revue Celtique* rhwng 1870 ac 1875, ond nis cwplawyd. Yn 1870 ysgrifennodd gyfran o'r fersiwn Gymraeg i lyfr o ffurf-weddïau Pabyddol yn y Llydaweg, *Liherieu hag Avieleu*, a bu'n golygu *Archaeologia Cambrensis* o 1871 hyd 1875.

Yn y flwyddyn 1876 dyrchafwyd ef i fywoliaeth Llanwrin, ac yno y bu y gweddill o'i oes. Golygodd waith **Thomas Stephens**, *Literature of the Kymry, Gwaith y Parchedig Evan Evans* ('**Ieuan Brydydd Hir**'), a chydolygodd *Llyfr Gweddï Gyffredin* gyda **Dr. Saunders** a'r **Deon Howell** yn 1876. Yn 1878 golygodd *Celtic Remains* **Lewis Morris**; yn 1882 cyhoeddodd - gyda **John Jones** ('Ivon') - *Ysten Sioned neu Y Gronfa Gymmysg*, ac yn 1883 bu'n golygu *Athrawiaeth yr Eglwys yn Wirionedd y Bibl*.

Anrhydeddwyd ef â'r radd o B.D. gan Goleg Llanbedr Pont Steffan yn 1868. Yn 1873 penodwyd ef yn arholwr yn y Gymraeg yn Llanbedr Pont Steffan, ac yn 1875 yn athro Cymraeg gan Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, swydd a ddaliodd o 1878 hyd 1884 fel athro rhan-amser.

Eilbeth oedd ei gynnyrch golygyddol i'w ddiwydrwydd geiriadurol am gyfnod o 30 mlynedd; cyhoeddwyd ffrwyth ei lafur ym mhedair cyfrol ei *Eiriadur Cymraeg* rhwng 1887 ac 1896. Yn ystod y saith-degaw cynnar ymrwrthododd yn raddol â syniadau **William Owen-Pughe** oherwydd ei gyfathrach ag amryw ysgolheigion ieuainc y bu i'w disgyblaeth wyddonol adael ei hargraff yn drwm arno; ymhlith y rhain yr oedd **John Peter** ('Ioan Pedr'), **John Rhys**, a **J. Gwenogfryn Evans**.

Drwy gymwynas **Benjamin Williams** ('Gwynionydd'), perigol Llanofar, cydsyniodd yr **arglwyddes Llanofar** i dalu rhan o dreuliau cyhoeddi'r geiriadur Cymraeg. Ymddangosodd y rhan gyntaf yn 1887, ond ni chwplawyd y gyfrol gyntaf - hyd y llythyren C - hyd 1893. Cyhoeddwyd cyfran gyntaf yr ail ran yn 1896. Yn 1898 ymddangosodd ei *Telyn Dyfi: Manion ar Fesur Cerd*.

Yn gydnabod am ei waith geiriadurol derbyniodd Silvan Evans fathodyn Cymdeithas y Cymmrodorion yn 1897, ac etholwyd ef gan Goleg Iesu, Rhydychen, i gymrodoriaeth o £100 y flwyddyn am dair blynedd. Sicrhawyd hefyd rodd iddo, ar draul y Goron, i'w gynorthwyo i gwpláu ei waith. Yn 1901 rhoes Prifysgol Cymru iddo'r radd anrhydeddus o D.Litt. Daeth anrhydeddau eglwysig hefyd i'w ran; yn 1888 etholwyd ef yn ganon anrhydeddus ym Mangor, yn brebendari Llanfair yn 1891, yn ganghellor Bangor yn 1895, ac yn gaplan i esgob Bangor yn 1899.

Ni chwplaodd y geiriadur er bod y rhan fwyaf o'r deunydd yn barod, oherwydd bu farw 13 Ebrill 1903. Cyhoeddwyd y bumed ran, a'r olaf, o'r gwaith yn 1906 - hyd y llythyren E - gan **Walter Spurrell**.

Daeth trallodion blin i ran Silvan Evans. Bu farw tri mab a thair merch cyn 1887, ac yn 1889 lladdwyd ei briod mewn damwain. Rhoes yr unig fab a'i goroesodd, J. H. Silvan Evans, gwr gradd o Goleg Iesu, Rhydychen, ei amser llawn i'r gwaith o gyhoeddi'r geiriadur, er nad ymddengys ei enw, gydag enw ei dad, onid ar y bedwaredd ran yn unig.

Awdur

Richard Edmund Hughes

Ffynonellau

Llawysgrifau Bangor yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor 367, 384, 387, 1678-1708

Nicander MS 5

Archifau LIGC: NLW MS 1887C, NLW MS 2301B, NLW MS 4358E

Archifau LIGC: Cwrtmawr MS 755C, Cwrtmawr MS 758B, Cwrtmawr MS 765B, Cwrtmawr MS 767-768B, Cwrtmawr MS 849B, Cwrtmawr MS 859C, Cwrtmawr MS 909B, Cwrtmawr MS 912B,

Cwrtmawr MS 915B, Cwrtmawr MS 916B, Cwrtmawr MS 925B, Cwrtmawr MS 1043E, Cwrtmawr MS 1119B

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

T. Gwynn Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych 1913), 107-19

R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, Cyfrol 1, 1789-1843* (Caerdydd 1933), 115-6

J. H. Davies, *The life and opinions of Robert Roberts, wandering scholar* (Caerdydd 1923), rhagarweiniad, vi, vii

Oxford Dictionary of National Biography, ail atodiad, cyf. i, 631-2

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

R. J. Thomas, yn *Baner ac Amserau Cymru*, 1 Ionawr 1941

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1903, 84 ff.

David Samuel yn *Cymru (O.M.E.)*, 1892, 12 ff., 50 ff., 81 ff., 144

John Rhys, yn *Cymru (O.M.E.)*, 1902, 12 ff.

David Samuel, yn *Y Geninen*, 1905, 15 ff.

J. M. Morgan, yn *Y Geninen*, 1912 (Gwyl Dewi), 7 ff.; 1914, 38 ff.; 1915, 125 ff.

R. Richards, yn *Yr Haul*, 1897, 117 ff.; 1901, 373

G. J. Williams yn *Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, 1933, 216 ff.

'Ieuan Gwynedd' yn *Y Traethodydd*, 1847, 203 ff.; 1911, 29-43, 108-16, 172-9

F. E. Hamer, yn *Young Wales: a national magazine for Wales*, 1901, 184 ff.

T. Richards yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1939, 137-9

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Daniel Silvan Evans](#)

Delweddau

LIGC: [Daniel Silvan Evans](#)

Geoff Charles, Laying a gravestone on the grave of the lexicographer Daniel Silvan Evans July 5, 1956

Gweithiau

D. Silvan Evans, *Elfenau gallofyddiaeth: ymddyddanion rhwng tad a'i blant* (Dinbych 1850)

D. Silvan Evans, *An English and Welsh dictionary: adapted to the present state of science and literature*(Denbigh 1852-1858), Cyf. II

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 45058628

Wikidata: [Q5218767](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

[Frannu](#)

Arddull APA

[×](#)

Hughes, R. E., (1953). EVANS, DANIEL SILVAN (1818 - 1903), geiriadurwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-SIL-1818>

[Cofrestru](#)

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn eiddo gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government